## Ymateb Bwrdd Croeso Cymru i adolygiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu gwledig

### Cefndir

Mae dibyniaeth fawr yng Nghymru wledig ar dwristiaeth i gefnogi amaethyddiaeth a diwydiannau eraill cysylltiedig e.e. crefftau. Medrir gweld y lefel bresennol o ddibyniaeth o'r ffaith mai i Gymru Wledig (Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Ynys Môn, Gwynedd, Sir Benfro a Phowys) yr oedd 49% o ymweliadau twristiaeth i Gymru yn 1999.

Y Deyrnas Gyfunol yw'r brif farchnad ar gyfer holl ddarparwyr twristiaeth Cymru ac felly mae'n ddiddorol edrych yn gyntaf sut mae poblogaeth y DG yn ymateb i argaeledd cynyddol TGC a'r rolau yr ystyrir y gall eu cyflawni.

Ar 13 Awst 2001 adroddodd ZDNet fod y nifer oedd yn defnyddio'r Rhyngrwyd yn gyson o fewn y Deyrnas Gyfunol wedi codi i 17.3 miliwn - twf anhygoel o 13 miliwn o’r amser hwn y llynedd, ffigurau a gefnogwyd gan y ffaith fod 76% o boblogaeth y DG yn awr â mynediad i'r Rhyngrwyd, a gynyddodd o 67% yn 2000. Mae'r lefel uchel hon o dwf wedi ei achosi gan y cynnydd yn nifer y gweithwyr coler-las ar-lein a nifer y menywod yn defnyddio'r Rhyngrwyd.

Dywedodd astudiaeth arall a gyhoeddwyd gan NetValue ar 23 Awst 2001 fod bellach dros 14 miliwn o bobl yn y Deyrnas Gyfunol yn defnyddio'r Rhyngrwyd yn eu cartrefi a fod bron 8% o ddefnyddwyr cartref dan 15 oed, 5.2% dros 65 mlwydd oed. Yn ychwanegol at hyn, dangosodd arolwg VirginStudent a gyhoeddwyd ar 13 Gorffennaf 2001 mai dim ond 1% o fyfyrwyr yn y Deyrnas Gyfunol sydd ddim yn defnyddio'r Rhyngrwyd.

Mae'r cynnydd yn y defnydd o'r Rhyngrwyd o fewn y Deyrnas Gyfunol yn rhoi marchnad gynyddol ar gyfer safleoedd teithio, sy'n parhau i fod yn un o'r prif ddefnyddiau o fewn y Deyrnas Gyfunol - dywedodd Jupiter Communications ar 7 Awst 2001 fod 30% o'r 15.2 miliwn o boblogaeth ar-lein yn y DG yn defnyddio safleoedd yn ymwneud â theithio, gyda'r defnydd yn gyson uwch yn ystod Mehefin a Gorffennaf - yn wir derbyniodd safle Bwrdd Croeso Cymru bron 5 miliwn o ymweliadau ym mis Mehefin. Gwelir y patrwm yn nhwf safleoedd teithio ledled y byd, gyda NFO Worldgroup yn adrodd twf sylweddol mewn defnydd teithio hamdden a busnes yn yr Unol Daleithiau.

Yr hyn sy'n arwyddocaol hefyd yw y caiff y cynnydd mewn defnydd ei adlewyrchu gan dwf mewn

prynu ar-lein ac mae Forrester Research Inc yn rhagweld y bydd yn cyrraedd $6.8 triliwn erbyn 2004 o fasnach B2B a B2C o amgylch y byd. Yn wir, mae Forrester hefyd yn rhagweld y bydd gan y farchnad deithio hamdden y Deyrnas Gyfunol drosiant o £3.7 biliwn yn 2005 - cynnydd sylweddol ar y £592 miliwn a wariwyd yn 2000. Cefnogir y math hwn o dwf gan y newid ym mhatrymau e-fasnach ymysg y cyhoedd - dynododd Datamonitor 5 math o Siopwr E Fasnach Ewropeaidd yn ei adroddiad ar 27 Mehefin 2001 - mae Ymwrthodwyr ac Agnosticiaid un ai ddim yn defnyddio'r Rhyngrwyd neu safleoedd math e-fasnach. Bwganod oedd 27% o ddefnyddwyr, gan bori drwy gynnyrch a gwasanaethau ar-lein ond yn prynu mewn mannau eraill; mae 8% yn Gymedrolwyr sy'n prynu ar-lein ond yn tueddu i fod yn wariwyr cynnil, gyda dim ond 6% o ddefnyddwyr yn y categori Teithwyr Byd. Er mai dim ond 14% o ddefnyddwyr rhyngddynt yw'r Cymedrolwyr a'r Teithwyr Byd, maent yn cyfrif am werth $16.4 biliwn o drafodion ar-lein bob blwyddyn, ac mewn termau Ewropeaidd yn tueddu i fod un ai o Sweden, Prydain a'r Almaen, gyda Ffrainc, Yr Eidal a Sbaen yn dilyn.

**Anghenion TGC Busnesau Twristiaeth Gwledig**

Wrth edrych ar anghenion cwmnïau bach a chanolig yn y sector twristiaeth yng Nghymru Wledig yn y presennol a'r dyfodol , mae nifer o ffyrdd lle mae defnydd TGC yn gydran hanfodol yn awr a hefyd yn y dyfodol agos iawn.

1. Mae ymholiadau am a phrynu gwyliau a theithio yn feysydd twf allweddol ar gyfer defnyddwyr y Rhyngrwyd ac adnoddau electronig eraill yw iDTV. Yn hynny o beth mae angen i fusnesau twristiaeth fedru defnyddio'r sianelau electronig hyn a chynnig prynu ar-lein yn ogystal â gwybodaeth - mae Bwrdd Croeso Cymru yn creu System Rheolaeth Cyrchfan i greu amgylchedd E-fasnach ar gyfer busnesau unigol ac i Gymru gyfan fanteisio ohonynt. Fodd bynnag, er fod hon yn un ddyfais y medrir ei defnyddio, mae llu o gyfleoedd marchnata-gwe masnachol y medrir eu defnyddio - er mwyn gwneud defnydd llawn o TGC mae'n hanfodol cael y lefel orau bosibl o gysylltedd ar draws Cymru Wledig.
2. Mae busnesau gwledig yn aml dan anfantais yn nhermau cael mynediad i'r cynnyrch a gwasanaethau pris gorau i gefnogi eu busnesau. Mae E-fasnach a chyfathrebu electronig yn rhoi cyfleoedd ar gyfer gwahanol ddynesiadau at ddatblygu cyrchu cynnyrch a phwrcasu rhag cael eu datblygu e.e. cyfeiriaduron electronig, cyd-brynu ar gostau is ar eitemau safonol, cyflenwyr arbenigol ac ati.
3. Mae defnydd doeth o TGC yn rhoi cyfleoedd newydd ar gyfer mwy o broffesiynoldeb o fewn busnesau, yn arbennig mewn cyfrifeg, cadw cwsmeriaid a chyrchu data. Mae ymrwymo cwmnïau bach a chanolig yn nefnydd TGC yn golygu fod angen cynlluniau i wneud prynu cyfrifiaduron yn fwy cost effeithiol (e.e. cynlluniau cyd-rentu telegyfathrebu a chyfrifiaduron), rhaid i hyfforddiant priodol fod ar gael fel a phan fo'i angen (h.y. addysg mewn pytiau ) ac mae angen dulliau cefnogaeth fel y medrant siarad mewn iaith briodol i'r busnes ac mae ar gael pan fo'r busnes ei angen - bydd Cynllun Cefnogaeth Busnes Bwrdd Croeso Cymru yn rhoi cefnogaeth i fusnesau sy'n dymuno cynyddu eu defnydd o TGC (mewn partneriaeth gyda gwasanaethau lleol a gwasanaethau Cyswllt Busnes) ac mae Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru sydd newydd ei ffurfio wedi cydnabod fod rhoi sgiliau defnyddio TGC i fusnesau twristiaeth yn gydran allweddol yn ei waith yn y dyfodol.

4. Er mai cyfrifiaduron yw'r rhyngwyneb allweddol i TGC ar hyn o bryd, un o'r datblygiadau mwyaf yn y dyfodol yw'r rhyngwyneb a datblygu'r Rhyngrwyd drwy sgrîn deledu h.y. iDTV. Os yw Cymru i fanteisio yn llawn ar hyn, yna mae angen iddi fod mewn sefyllfa lle mae'r is-strwythur yn ei le a'r dechnoleg yn rhwydd i'w chael i ymateb fel y cwyd cyfleoedd.
5. Mae ymwelwyr yn awr yn disgwyl i westai a gwestai bach gael rhyng-gysylltedd y medrant ei ddefnyddio fel a phan fo ei angen - ac mae'n rhaid dweud nad yw llawer o sefydliadau ledled Cymru yn cynnig y math hwn o gyfleuster - yn aml heb hyd yn oed gyfleusterau penodol ar gyfer busnes a chynadleddau. Bu Bwrdd Croeso Cymru yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy Gynllun Twristiaeth Busnes y Bwrdd (sy'n rhoi grant hyd at 50% ar weithiau cyfalaf a all gynnwys darpariaeth pwyntiau mynediad TG yn ogystal â desgiau a thelegyfathrebu) fodd bynnag dim ond gyda'r is-strwythur sydd eisoes yn ei le y gall y systemau hyn weithio - ac os yw hynny'n araf yna mae'r gwasanaeth a gynigir i'r ymwelydd yn is na'u disgwyliadau.
6. Mae cyfryngau newydd yn datblygu llwybrau newydd i gyrraedd y cwsmer - p'un ai yn WAP a ffonau trydedd genhedlaeth, neu giosgau a systemau llwybro - mae gan y cyfan o'r rhain gyfleoedd ar gyfer busnesau twristiaeth yn rhannau gwledig Cymru, yr hyn sydd ei angen yw creadigrwydd a chyfle i gymryd y cyfryngau datblygol hyn a chreu cymwysiadau dychmygus - yn ddelfrydol mae angen buddsoddiad ysgogi ar gyfer hyn.

Mae twristiaeth a'i ddiwydiannau cysylltiedig angen yr un fath o gefnogaeth TGC â chwmnïau bach a chanolig eraill mewn llawer ffordd:

1. Isadeiledd o'r ansawdd a'r cyflymedd uchaf gyda chostau ISP a chostau eraill isel
2. Ffyrdd rhwydd o fuddsoddi mewn cyfrifiaduron a chaledwedd arall, ynghyd â dull i'w gadw yn gyfoes.
3. Hyfforddiant hyblyg a phriodol
4. Cefnogaeth - ar gyfer amser pan nad yw pethau yn gweithio
5. Cyngor annibynnol i wneud y defnydd mwyaf priodol o TGC o fewn eu busnes.
6. Gwybodaeth ar y cyfryngau sy'n datblygu a dulliau ar gyfer harnesu eu potensial.
7. Cynlluniau lleol i rannu gwybodaeth a manteisio o'r wybodaeth a chyfleoedd e-fasnach y medrir eu cael.
8. Dyfeisiau effeithlon wedi'u cyflenwi gan y llywodraeth pan fo cyfleoedd masnachol yn aneffeithiol.
9. Cyfleoedd ar gyfer arloesedd, yn defnyddio TGC lle'n briodol.

Mae gan ymwelwyr i Gymru hefyd anghenion TGC allweddol i gynhyrchu a chefnogi eu hymweliadau i Gymru:

1. Mynediad i amrediad eang o gynnyrch twristiaeth a delweddaeth "gwerthu" drwy'r Rhyngrwyd a sianeli cyfathrebu rhyngwladol eraill.
2. Wrth i hyder cwsmeriaid gynyddu ym maes pwrcasu ar-lein, felly mae angen i sector twristiaeth Cymru fod mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyfleoedd newydd (yn nhermau llwybrau dosbarthu a phartneriaid) sy'n datblygu.
3. Unwaith yng Nghymru mae ymwelwyr yn disgwyl gweld cyfrifiaduron yn cael eu defnyddio fel

rhan o'r gwasanaeth gwybodaeth - dylai Canolfannau Croeso fod yn defnyddio cyfrifiaduron a ffynonellau gwybodaeth ryngwladol i gynorthwyo ymwelwyr.

4. Gyda pharatoi gwybodaeth electronig ar fusnesau twristiaeth Cymru, mae cyfleoedd ar gyfer dosbarthu pellach e.e. gwasanaeth teledu digidol ar gyfer ymwelwyr - rhoi syniadau am beth i'w wneud ac ati.
5. Er mwyn i Gymru arwain y diwydiant twristiaeth yn Ewrop, mae angen iddi fod yn rhwyddach i archebu yng Nghymru nag unrhyw le arall, mae angen i'r gofal cwsmeriaid ac anghenion cefnogaeth fod heb eu hail, ac mae angen i'r ôl-ofal annog ymweliadau dychwel (defnydd CRM) - mae gan TGC ran yn yr holl feysydd hyn ac mae pwysigrwydd y diwydiant twristiaeth i Gymru Wledig yn golygu fod yn rhaid iddo fod mor barod ag unrhyw ran arall o Gymru (a'r Deyrnas Gyfunol) i fanteisio ar y cyfleoedd newydd fel a phryd y deuant ar gael.